www.coedllandegla.com/

Gwybodaeth am Goedwig Coed Llandegla

Croeso

Croeso i Goedwig Coed Llandegla, sy'n eiddo i UPM Tilhill, ac yn un o'r cyfleusterau adloniadol mwyaf sydd mewn dwylo preifat yng Ngogledd Cymru. Mae gan y goedwig lwybrau ar gyfer beicio mynydd sy'n addas i ddechreuwyr a grwpiau teuluol; llwybrau mwy anodd i feicwyr profiadol, a dewis o lwybrau cerdded gyda golygfeydd gwych i'w gweld ohonynt. Mae'r traciau i gyd wedi eu hamgau yn llwyr o fewn y goedwig, heb unrhyw ffyrdd mawr i'w croesi. O fewn y Ganolfan Ymwelwyr ceir caffi ac amrywiaeth eang o gyfleusterau i ymwelwyr.

Roedd Coedwig Coed Llandegla yn un o'r Canolfannau Beiciau Mynydd cyntaf yn y DU i dderbyn IMBA (Achrediad Cymdeithas Beiciau Mynydd Rhanbarthol – gweler www.imba.com), ac yn 2005 enillodd y goedwig wobr y Goedlan wedi ei Rheoli Orau yng Nghymru.

Y Goedwig

Mae Coed Llandegla yn goedwig ddeinamig sy'n cael ei rheoli'n bennaf i gynhyrchu coed o bren meddal ar gyfer marchnadoedd y DU. Mae'n enghraifft ardderchog hefyd o sut y gall coedlannau Cymru gael eu rheoli i ddarparu manteision eraill fel cynnig mwynderau a gwella bioamrywiaeth.

Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Mae 50% o boblogaeth Cymru o rugieir duon yn byw o fewn milltir i'r goedwig. Mae'r ardal yn cael ei monitro yn agos gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Ymwelwch â www.rspb.org.uk

Mae coed yn adnodd adnewyddadwy. Rheolir Coed Llandegla ar sail gynaliadwy. Defnyddir logiau sy'n gadael y goedwig mewn ystod o gynhyrchion fel trawstiau ar gyfer toeon, paletau, deunyddiau ffensio a byrddau sglodion. O gychwyn cyntaf Canolfan Ymwelwyr Coed Llandegla, amcan UPM Tilhill oedd darparu adeilad oedd yn cyd-fynd â'r amgylchedd o'i gwmpas ac arddangos technegau adeiladu cynaliadwy. Mae'r adeilad yn un a wnaed o logiau pren solet gyda choed sydd wedi dod o goedwigoedd sydd wedi eu hardystio gan FSC. I ddarganfod mwy am yr hyn mae FSC yn ei wneud ymwelwch â www.fsc.org

Daw'r ynni i wresogi'r adeilad a'i ddŵr yn rhannol o baneli solar a phwmp gwres geo-thermaidd. Mae hyn yn helpu i gwtogi ar ofynion ynni'r adeilad. Cesglir dŵr glaw o'r to ac mae'n cael ei storio i ddarparu dŵr i fflyshio toiledau a gweithredu'r 'jet-wash'.

I gael mwy o wybodaeth ymwelwch â www.coedllandegla.com/

Cyfleusterau Canolfan Ymwelwyr Llandegla

Caffi

Mae'n gweini'r 'Frechdan cig moch orau yn y DU' fel yr argymhellir gan Lyfr Bwyd Da BMW. Mae awyrgylch ymlaciol, soffa gysurus a cherddoriaeth i'ch suo yn ei wneud yn lle gwych i ymlacio ar ôl chwyrlio o amgylch y llwybrau.

Hurio beiciau

Kona Hardtails o'r ansawdd gorau yw ein fflyd o feiciau i'w hurio. Fe'ch cynghorir i archebu ymlaen llaw. Prisiau: Hanner diwrnod £15, Diwrnod llawn £19, Helmedau £3.

Siop Beiciau

Canolfan arddangos swyddogol ar gyfer beiciau Kona, Cove a Santa Cruz. Rydym yn cadw ystod eang o ddillad ac ategolion – sy'n werth i unrhyw feiciwr eu gweld..
Beiciau i'w profi

Rhowch gynnig ar y rhain cyn i chi brynu. Os bydd un o'r beiciau yn ein fflyd o feiciau arddangos yn mynd â'ch ffansi, ewch ag ef am reid i weld ai hwn yw'r un i chi.

Arweinwyr

Gallwch hurio un o'n harweinwyr arbenigol i ddangos sut i wneud pethau am gyn lleied â £75 am hanner diwrnod (uchafswm o 6 o bobl ar gyfer pob arweinydd).

Canolfan Trwsio

Noddwyd y ganolfan gan Fibrax, ac mae ein harbenigwyr wrth law i helpu gydag unrhyw waith trwsio neu wasanaethu.

Ystafell ddosbarth/ystafell gyfarfod

Mae hon ar gael i'w hurio ar gyfer unrhyw ddigwyddiad mewn cydweithrediad â reid i grŵp. Gellir trefnu cyfleusterau arlwyo i weddu i'ch anghenion. I gael dyfynbris unigol wedi ei deilwrio i'ch gofynion galwch ni ar 01978 751656.

Hyfforddiant

Ydych chi'n teimlo'n rhwystredig o beidio gallu mynd dros y rhwystr yna? Hoffech chi ddysgu mwy am gynnal eich beic? Ydych chi'n ansicr ynghylch sut i ddefnyddio eich geriau yn briodol? Fedrech chi wneud â gwella ambell sgil sydd wedi pylu? Archebwch le ar un o'n cyrsiau sgiliau. Ni waeth a ydych am archebu lle ar un o'n cyrsiau sydd ar gyfer grwpiau, gael hyfforddiant un i un, neu archebu cwrs ar gyfer criw o'ch ffrindiau, mae gennym gwrs sy'n addas ar gyfer pob gallu a sgil. I gael mwy o wybodaeth ymwelwch â www.oneplanetadventure.co.uk

Dilynwch y Cod Beicio

1.
Disgwyliwch yr annisgwyl!
Cadwch eich cyflymder i lawr.

2.
Cofiwch fod cerbydau eraill yn defnyddio ffyrdd y goedwig yn ogystal â chi!

3.
Mae gan bobl o'ch blaen hawl i dramwyo. Gofalwch fod pobl yn gwybod eich bod yno cyn pasio mewn lle diogel.

4.
Arafwch neu stopiwch i gerbydau ac osgoi damwain!

5.
Ufuddhewch i bob arwydd gwyro – maent yna er eich diogelwch ac maent yno yn aml i hwyluso torri coed.

6.
Perygl – peidiwch â phasio unrhyw gerbyd sy'n llwytho coed hyd nes y dywedir wrthych am wneud hynny.

7.
I gerddwyr yn unig mae llwybrau troed.
Mae llwybrau beic i seiclwyr yn unig.

8.
Seiclwch neu cerddwch yn ofalus a chyn dechrau darllenwch yr wybodaeth yn y daflen hon sy'n disgrifio cymeriad pob un o'r llwybrau sydd wedi eu cyferbwyntio yng Nghoed Llandegla.

Amserau Agor

Mae'r llwybrau beicio, y maes parcio a'r toiledau ar agor 7 diwrnod yr wythnos
Mae'r Ganolfan Ymwelwyr ar gau ar ddydd Llun
Yr Haf: Ar agor 9.00am i 8.00pm
Gaeaf: Ar agor 9.00am i 6.00pm (8.00pm ar ddydd Mercher)

Edrychwch ar www.coedllandegla.com am amrywiadau tymhorol

Cyrraedd yno

Mae Coedwig Llandegla ar yr A525, saith milltir i'r gorllewin o Wrecsam. O Gaer cymerwch yr A483 i'r de o Gaer tuag at Wrecsam yna cymerwch yr A525 i'r gorllewin wedi ei harwyddo am Ruthun. O ardal Rhuthun cymerwch yr A525 i'r dwyrain tuag at Wrecsam. Mae arwydd i Ganolfan Ymwelwyr Coed Llandegla ger y ffordd.

Cysylltu

Ffôn: 01978 751656
Ebost: info@coedllandegla.com

Canolfan Ymwelwyr Coedwig Coed Llandegla, Ffordd Rhuthun, Llandegla, Wrecsam, LL11 3AA, Gogledd Cymru

Taflen Map Arolwg Ordnans 117 Caer a Wrecsam, 1:50,000
Cyfeirnod Grid i gael mynediad o'r ffordd fach: SJ240524

www.coedllandegla.com/

Dyluniad a ffotograffiaeth gan Promote Environmental Communication.com
www.promotedesign.com/environmental.html

Mae Coedwig Coed Llandegla saith milltir o Wrecsam a 14 milltir o Gaer.

Rhif Tystysgrif FSC SGS-FM/COC-0429 Nod Masnach 1996 © Cyngor Stiwardiaeth Coedwig AC

Yn eiddo i ac yn cael ei rheoli gan UPM Tilhill, prif gwmni coedwigaeth y DU

Gweithredir y cyfleusterau a'r llwybrau beiciau o dan arweiniad tywysydd gan One Planet Adventure

Llwybrau beiciau mynydd Coed Llanegla – pa un sydd i chi?

Llwybr Her Teuluol
Gwyrdd 5km / 3 milltir

Llwybr wedi ei gyferbwyntio o ryw 5km sydd wedi ei ddatblygu'n benodol ar gyfer teuluoedd yw hwn. Mae'r llwybr yn osgoi llethrau serth ac adrannau technegol, ac yn canolbwyntio ar ganiatáu i deuluoedd brofi seiclo oddi ar y ffyrdd mewn ffordd hwyliog a diogel. Mae'r arwynebau y deuir ar eu traws ar y llwybr hwn yn gyffredinol yn rhai caled ond ceir adrannau sy'n rhydd, yn anwastad neu yn fwdlyd ar adegau. Mae'r llwybr yn caniatáu i reidwyr ddringo yn araf o'r maes parcio, trwy'r goedwig ac ymlaen at y gronfa ddŵr, gyda golygfeydd o Fryniau Clwyd. Ar ôl seiclo o amgylch y gronfa ddŵr, mae'r llwybr yn dolennu yn ôl drwy'r goedwig cyn disgyn ar y diwedd i lawr at y Ganolfan Ymwelwyr, sy'n rhoi cyfle i chi gael paned o de a darn haeddiannolo gacen.

Llwybr i Ddechreuwyr
Glas 12km / 7.5 milltir
Felly, mae gennych lefel dda o ffitrwydd ac rydych yn dymuno rhoi cynnig ar feicio mynydd? Mae hwn yn llwybr gwych i roi cynnig arno cyn mynd ar y llwybr canolig hwy. Mae'n dal yn 12km o hyd a byddwch yn dringo'n raddol i fyny trwy'r goedwig hyd nes bydd yn rhannu gyda'r Llwybr Canolig ym mhen uchaf y goedwig. Yna ceir hanfod beicio mynydd – fe'ch gwobrwyir am ddringo i fyny'r rhiw! Mae llwybr gwych i'w fwynhau yn ôl i'r Ganolfan – sy'n cynnwys bryniau graddol sy'n mynd tuag at i lawr yn bennaf, ond gydag ychydig o adrannau o ddringo rhyngddynt i'ch cadw ar flaenau'ch traed! Mae gan y llwybr hwn hefyd ddewis o dwmpathau bychain a nodweddion eraill i ychwanegu rhywfaint o her! Gall y llwybr hefyd fod yn wlyb ac yn fwdlyd mewn mannau yn dibynnu ar y tywydd.

Llwybr Canolig
Coch 18km / 11 milltir

Os ydych yn feiciwr mynydd medrus gyda lefel uchel o sgil yna mae'n rhaid i chi roi cynnig ar y llwybr ffantastig hwn. Mae'r llwybr hwn yn rhannu'r un dringo graddol drwy'r goedwig gyda'r llwybr 'Dechreuwyr' (glas). Pan mae'n ymrannu ym mhen uchaf y goedwig, mae'r llwybr coch hwy yn eich anfon ar gyfres o sialensau mwy technegol, gyda thrac sengl heb wyneb iddo (0.6m-1.2m) ac adrannau serth drwy ardaloedd mwy anghysbell y goedwig (gweler yr adran ar ddiogelwch personol yn y daflen hon). Mae'r llwybr hwn yn defnyddio rhannau hir o lwybr y mae'n rhaid eu dilyn am yr eildro na ellir eu hosgoi, cylchynau, croesiadau dŵr, llwyfandiroedd a llwybr byrddau. Yn ogystal â bod yn llwybr hwy mae hefyd mwy o fannau lle bydd angen dringo a disgyn eto. Mae angen lefel uchel o ffitrwydd, stamina a phrofiad ar gyfer y llwybr hwn.

Rhediadau Duon
Du 21km / 13 milltir (yn fras)

Ceir cyfres o rediadau duon (6km) sy'n hygyrch o'r Llwybr Canolig yn unig. Gyda'i gilydd mae'r llwybrau coch a du yn cynnwys 21km o lwybr. Rhannau mwy serth sy'n mynd ar y goriwaered yn bennaf yw'r rhediadau duon ac mae ganddynt nodweddion technegol llawer mwy heriol. Bwriedir i adrannau hyn y llwybr ar gyfer beicwyr mynydd sydd wedi arfer â llwybrau mwy anodd yn gorfforol. Mae angen beic mynydd o safon dda sydd wedi cael gwasanaeth da. Maent yn cynnwys adrannau hir o lwybr serth, sefydlog yn bennaf ond heb arwyneb iddo o 0.6m neu fwy ac yn cynnwys rhwystrau na ellir eu hosgoi gyda stepiau mawr, bylchau a mannau gollwng. Mae gan rai strwythurau pren ymylon wedi eu hamlygu: dim ond 1 metr yw lled y llwybr yma, a cheir adrannau o ddringiadau serth sy'n anodd yn dechnegol. I feicwyr profiadol yn unig.

Diogelwch Personol

- Ewch â ffôn symudol gyda chi bob amser
- Ewch ar hyd y math o lwybr sy'n addas ar gyfer eich gallu a manyleb/ansawdd eich beic
- Reidiwch o fewn eich gallu
- Sicrhewch fod eich beic yn ddiogel i'w reidio a byddwch yn barod ar gyfer pob argyfwng
- Cariwch ryw fath o ddogfen adnabod gyda chi bob amser
- Dywedwch wrth rywun i ble rydych yn mynd a phryd y byddwch yn ôl
- Gall deunyddiau adlewyrchol ar eich dillad neu'ch beic arbed eich bywyd
- Gwisgwch helmed BOB AMSER
- Y tywydd sy'n penderfynu ar yr amodau cyffredinol ar y llwybr. Gofalwch fod gennych ddillad addas, bwyd, diod ac amser i gwblhau eich taith yn ddiogel. PEIDIWCH Â DIBYNNU AR BOBL ERAILL
- Os cewch anhawster ar y llwybr chwiliwch am y pyst gyda'r cyferbwyntiau sydd wedi eu rhifo yn unigol. Dywedwch wrth y gwasanaethau argyfwng neu wrth y Ganolfan Ymwelwyr ymhle rydych chi. Ceir mynediad i'r Ganolfan Ymwelwyr o'r ffordd fach (oddi ar yr A525 ffordd Wrecsam i Ruthun) yng nghyfeirnod grid SJ 240 524. Mewn argyfwng galwch 999. Mae'r cyfleusterau ysbyty achosion brys agosaf yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, LL13 7TD. Ffôn: 01978 291100.

Mae'r llwybrau yn datblygu drwy'r amser. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â diogelwch a gwyriadau gweler ein gwefan: www.coedllandegla.com/

Gallwch hyd yn oed bostio eich ffotograffau ar-lein!

Rhodfeydd Coed Llandegla – Pa un sy'n addas i chi?

Llwybr Cerdded y Gronfa Ddŵr
4 km / 2.5 milltir Amser: 1 awr

Mae'r llwybr hwn yn anturio i ben dwyreiniol y goedwig o amgylch ardal y gronfa ddŵr, gyda golygfeydd ardderchog tuag at Foel Famau, ac yna'n disgyn i ardaloedd lle ceir llarwydd cyn dychwelyd i'r Ganolfan Ymwelwyr.

Llwybr Cerdded y Grugieir Duon
3.5km / 2 filltir Amser: 1 awr

Mae hwn yn dro i guddfan adar yr RSPB gyda golygfeydd tuag at Fynydd Esclusham ac SDdGA Rhiwabon. O'r guddfan gellir gweld grugieir duon ar rai adegau o'r flwyddyn. I gael mwy o wybodaeth ymwelwch â www.rspb.org.uk

Llwybr Cerdded Canolig
5km / 3 milltir Amser: 1 awr 15 munud

Mae'r tro hwn yn rhoi ymdeimlad i chi ynglŷn â'r gwahanol rywogaethau a chynefinoedd sydd yn y goedwig. Mae'r llwybr yn dringo at y blanhigfa o goed sbriws yr ucheldir ac yna'n mynd trwy ardaloedd o rug lle gellir gweld y grugieir, ynghyd â golygfeydd tuag at Foel Famau. Mae wedyn yn disgyn i ardaloedd o larwydd cyn dychwelyd i'r Ganolfan Ymwelwyr.

Llwybr Cerdded Hir
11km / 7 milltir Amser: 2 awr 30 munud

Mae'r tro hwn yn dechrau trwy rannu'r ddringfa at y blanhigfa o goed sbriws gyda'r llwybr canolig, yna mae'r llwybr yn parhau i ben pellaf y goedwig. Byddwch yn mynd heibio i ardaloedd o goedwig sydd wedi eu teneuo i'r grugieir duon, ac sydd hefyd yn cynnig golygfeydd da. Mae'r adran olaf unwaith eto yn cael ei rhannu gyda'r llwybr canolig.

Mae'r llwybrau i gyd yn dechrau o'r Ganolfan Ymwelwyr. Mae croeso i gŵn, ond mae'n rhaid eu cadw o dan reolaeth oherwydd bod beiciau mynydd cyflym yn mynd heibio yn agos ac ni ddylid caniatáu i gŵn faeddu'r ardal a difetha mwynhad eraill. Cofiwch fod y rhodfeydd i gyd mewn ardaloedd lle y bydd coed yn cael eu cynaeafu weithiau, felly dylech fod yn ofalus bob amser. Cyfeiriwch at y Cod Seiclo. Nid yw'r amserau a roddir ar gyfer y troeon yn cynnwys cyfnodau o orffwys. Argymhellir safon resymol o ffitrwydd a dylech wisgo esgidiau cerdded call i gwblhau'r troeon hyn.